**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

06 Chwefror 2023

Annwyl Mick

## Cywiriadau i offerynnau statudol Cymru

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 18 Ionawr 2023, lle gwnaethoch ymateb i'r cwestiynau a nodwyd yn fy llythyr atoch, dyddiedig 21 Rhagfyr 2022.

Yn ystod ein cyfarfod ar 23 Ionawr 2023, gwnaethom drafod eich atebion i'n cwestiynau. Yn gyffredinol, rydym o'r farn bod yr atebion hyn yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol, yn rhannol oherwydd bod yr esboniadau hyn bellach yn y parth cyhoeddus.

Yn ystod ein cyfarfod ar 30 Ionawr 2023, gwnaethom hefyd drafod llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, dyddiedig 26 Ionawr 2023, mewn ymateb i'n llythyr dyddiedig 16 Ionawr 2023, a oedd yn ymwneud â dwy set o reoliadau a wnaeth ein hysgogi, yn rhannol, i ysgrifennu atoch ar 21 Rhagfyr.

Parthed y ddau lythyr dan sylw, byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o eglurder ar y materion sydd wedi'u nodi isod.

## Y llythyr dyddiedig 18 Ionawr 2023

1) Ym mharagraff 4, rydych yn dweud: "Defnyddir slip cywiro pan fydd yr OS wedi'i gofrestru a'i gyhoeddi. Lluniwyd y broses ar gyfer OSau argraffedig, i raddau helaeth iawn.  Caiff slipiau cywiro eu cyhoeddi bob tro y bydd rhywun yn prynu fersiwn argraffedig o OS o'r newydd (a'i anfon hefyd at brynwyr hysbys yr OS); cânt hefyd eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r fersiynau digidol o'r OS (cywiredig) ar legislation.gov.uk." A ydych yn ystyried bod diffyg democrataidd posibl yn parhau i fodoli os yw'r weithrediaeth neu'r Cofrestrydd OS yn gwneud newidiadau unochrog i ddeddfwriaeth sy'n cael ei chymeradwyo gan ddeddfwrfa?

2) Rydym yn parhau i deimlo bod diffyg eglurder ynghylch sut y caiff y meini prawf a nodir yn nogfen yr Archifau Gwladol, sef Statutory Instruments Practice (SIP), ac yn Adroddiad Arbennig y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol, sef Transparency and Accountability in Subordinate Legislation, eu cymhwyso wrth ystyried camgymeriadau mewn deddfwriaeth ddwyieithog, yn hytrach na deddfwriaeth uniaith. Mae gan y testun Cymraeg a'r testun Saesneg statws cyfartal, ac felly gellir defnyddio egwyddorion dehongli gwahanol neu ychwanegol wrth ystyried a yw camgymeriad yn cael effaith "sylweddol". A fyddai modd i chi gadarnhau a yw natur arbennig deddfwriaeth ddwyieithog yn cael ei hystyried wrth gymhwyso'r meini prawf? Hefyd, a ydych yn gwybod a oes gan y Cofrestrydd OS arbenigedd yn y Gymraeg, neu a yw'n dibynnu ar ddatganiad gan Lywodraeth Cymru bod camgymeriad sy'n ymwneud â'r testun Cymraeg o fewn y meini prawf priodol?

3) Ym mharagraff 6, rydych yn cyfeirio at 'gywiro wrth wneud' a 'chywiro wrth gyhoeddi', gan nodi eu bod yn dermau sy'n cael eu defnyddio er hwylustod gan Lywodraeth Cymru, ond nad ydynt yn ddisgrifiadau cwbl fanwl gywir o'r pwynt y gwneir y cywiriadau. Byddem yn croesawu ymrwymiad bod y Llywodraeth, yn ei hymatebion i'n hadroddiadau ar offerynnau statudol, yn defnyddio'r termau cywir yn gyson yn y dyfodol, a hynny er mwyn sicrhau eglurder ynghylch sut y bydd unrhyw gamgymeriadau yn cael eu cywiro.

4) Ym mharagraff 11 rydych yn dweud: "Ar y cyfan, os yw'r camgymeriad yn un y gellid defnyddio slip cywiro i'w gywiro, yna byddai'n well gennym ymdrin â hynny drwy ei gywiro wrth (h.y. cyn) ei wneud. Os yw'n fater mân iawn, ond heb fod yn un a fyddai'n addas ar gyfer slip cywiro, o angenrheidrwydd, yna efallai y byddwn hefyd yn ceisio ymdrin â'r mater hwn wrth (h.y. cyn) ei wneud. Gall y Gweinidog dynnu sylw'r Aelodau at y materion hyn naill ai mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor neu yn ystod y ddadl ar yr offeryn." Byddem yn croesawu ymrwymiad i'r perwyl y bydd unrhyw fater o'r fath bob amser yn cael ei ddwyn i sylw'r Senedd yn ystod y ddadl, ni waeth a yw'r mater eisoes wedi'i drafod mewn gohebiaeth â'm Pwyllgor, gan ei bod yn bwysig sicrhau bod eglurder ymhlith yr holl Aelodau o'r Senedd a'r cyhoedd ynghylch y materion yr ydym yn pleidleisio arnynt.

Hoffem wneud pwynt cyffredinol ynglŷn â pharagraffau 11 i 13 a'r dull yr ydych yn ei arddel, gan gynnwys y ffaith mai'r drefn a ffefrir gennych yw cywiro'r offeryn drafft a'i ailosod gerbron y Senedd. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, rydym yn parhau i gredu na ddylid rhoi'r Senedd mewn sefyllfa lle bydd disgwyl iddi bleidleisio ar offeryn diffygiol.

### Y llythyr dyddiedig 26 Ionawr 2023

5) Yng nghwestiwn 4 o'n llythyr at y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog, gwnaethom ofyn am eglurder ynghylch y camau sydd wedi'u rhoi (neu a fydd yn cael eu rhoi) ar waith i sicrhau nad yw cais i gymeradwyo rheoliadau y gŵyr y Llywodraeth eu bod yn ddiffygiol yn cael ei osod gerbron y Senedd yn y dyfodol. Nid ydym yn o'r farn bod cyfeirio yn unig at bolisi drafftio arferol Llywodraeth Cymru yn ateb digonol, yn enwedig wrth ystyried nad oedd y polisi hwnnw wedi datgelu'r diffygion yn y ddwy set o Reoliadau dan sylw. Byddem yn ddiolchgar, felly, pe gallech roi sylw i'r pwynt allweddol, sef y

dylid darparu eglurder ynghylch y camau a roddwyd (neu a fydd yn cael eu rhoi) ar waith gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau nad yw cais i gymeradwyo rheoliadau y gŵyr y Llywodraeth eu bod yn ddiffygiol yn cael ei osod gerbron y Senedd yn y dyfodol.

6) Unwaith eto, o ran yr ymateb a gawsom i gwestiwn 4, a fyddai modd i chi roi ymrwymiad na fydd Llywodraeth Cymru, mewn perthynas ag offerynnau statudol sy'n deillio o Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (os yw'n cael Cydsyniad Brenhinol), yn gosod offerynnau y gŵyr y Llywodraeth eu bod yn ddiffygiol gerbron y Senedd i'w cymeradwyo?

7) O ran yr ymateb i gwestiwn 6 yn ein llythyr at y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog, yn groes i'r wybodaeth a ddarparwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru yn ei hymateb i'n hadroddiad ac yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, nodwn fod cywiriadau i ddau gamgymeriad yn y Rheoliadau Bwyd wedi'u gwneud fel rhan o'r broses gofrestru, a ddileodd yr angen i gynhyrchu slip cywiro. Rydym yn pryderu nad yw dull o'r fath yn ymddangos yn dryloyw nac yn hygyrch. Mae'r pryder hwn yr un mor berthnasol i'r broses gywiro cyn gwneud. A fyddai modd i chi egluro sut y bydd y sawl sy'n darllen deddfwriaeth yn gwybod bod newidiadau wedi'u gwneud i'r rheoliadau, waeth pa mor fân yw'r newidiadau hynny ym marn Llywodraeth Cymru, wedi iddynt gael eu cymeradwyo gan y Senedd?
Fel y crybwyllwyd yn y llythyr blaenorol a anfonwyd gennyf, rydym hefyd wedi ysgrifennu at y Cofrestrydd OS i ofyn am ragor o wybodaeth am ei rôl yn y prosesau hyn. Rydym yn aros am ymateb.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ateb erbyn 23 Chwefror 2023.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, ac at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd